# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (GIP)** |

Nid yw darpariaethau'r Bil hwn yn canolbwyntio i ddechrau ar GIP ar gyfer plant neu bobl ifanc, ac felly ni fu angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar hyn o bryd. Gan ystyried y canllawiau ar Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, roedd swyddogion o'r farn nad oedd y darpariaethau arfaethedig yn y Bil yn debygol o gael effaith ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a'u hawliau. Felly, roedd swyddogion o'r farn nad oedd angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar hyn o bryd. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud yn y dyfodol i ddefnyddio pwerau yn y Bil i greu'r opsiwn o daliadau uniongyrchol ar gyfer GIP plant, byddai Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gynnal yn briodol bryd hynny.

Bydd effeithiau cadarnhaol i'r oedolion ifanc hynny (18+) sydd wedi trosglwyddo o wasanaethau plant lle y gallai taliadau uniongyrchol fod yn opsiwn drwy'r elfen gofal cymdeithasol, i wasanaethau gofal iechyd i oedolion lle nad yw taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd yn opsiwn. Bydd yr oedolion ifanc hyn yn gallu dewis cadw eu cynorthwywyr personol a'u pecyn gofal yn yr un fformat ag y gallent o dan y gwasanaethau plant.